**13.1** **Materion Eraill** **Other Matters**

Rhif y Cais: **44C290A** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Owen Rowlands**
**c/o Mr John McGarry**
**Entrust**
**Daresbury Innovation Centre**
**Keckwick Lane**
**Daresbury**
**Cheshire West and Chester**
**WA4 4FS**

Codi 2 twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 29.6m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 20m a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 39.6 ar dir yn

Erection of 2 wind turbines with a maximum hub height of up to 29.6m, rotor diameter of up 20m and a maximum upright vertical tip height of up to 39.6m on land at

Bodneithior, Llandyfrydog



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DPJ)**

**Argymhelliad:**

Bod aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Yn y cyfarfod ym mis Mai, penderfynodd y Pwyllgor ddirprwyo grym i gymeradwyo'r cais uchod i swyddogion. Yn y cofnodion nodwyd y penderfynwyd *"dirprwyo grym i gymeradwyo i'r swyddogion, yn amodol ar gynnal asesiad o'r datganiad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd mewn perthynas â'r llwybr yr oeddent yn bwriadu ei ddefnyddio i ddanfon y tyrbinau gwynt'.*

Fodd bynnag, roedd yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Mai yn dweud y byddai modd delio gyda'r mater o ran y llwybr y bwriedir ei ddefnyddio trwy gyfrwng amod cynllunio a chynllun rheoli traffig. Y manylion yr oedd disgwyl amdanynt ac a hysbysebwyd fel gwybodaeth ychwanegol oedd asesiad pellach o'r mwynderau preswyl.

Mae gwrthwynebydd i'r cais cynllunio wedi nodi'r mater hwn ac adroddir arno felly i'r pwyllgor hwn er eglurhad ac i gadarnhau bod yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried y gellir delio gyda'r llwybr danfon, yn yr achos hwn, trwy amod cynllunio.

Wrth hysbysebu'r wybodaeth ychwanegol, cafwyd nifer o wrthwynebiadau yn codi materion a gyfeiriwyd i adain gyfreithiol y Cyngor am gyngor, sef:

- Yr honiad y gallai bod gan swyddogion ddiddordeb breintiedig yn y cais.
- Y posibilrwydd o adolygiad barnwrol am y rhesymau isod:
- Ni wyddys beth yw gwneuthuriad na model y tyrbinau.
- Sŵn
- Nid yw'r dull Sgrinio AEA yn cydymffurfio gyda chyfarwyddeb AEA.
- Mae'r cais yn gamarweiniol mewn sawl agwedd ac yn tynnu'n groes i'r Gyfarwyddeb Cyfranogi.

Gofynnodd yr awdurdod cynllunio lleol am estyniad amser yn yr achos cyntaf tan 04.07.12 i ddelio gyda'r gwrthwynebiadau hyn ond penderfynodd yr ymgeiswyr apelio ar sail diffyg penderfyniad. Mae'r apêl honno'n cael ei phrosesu ar hyn o bryd ac mae'r awdurdod cynllunio lleol yn disgwyl am gadarnhad o'r dyddiad cychwyn.

**1. Argymhelliad**

Bod yr aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.